# Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru

## Llais Profiad Byw

Canllawiau Cymru ar Arfer Gorau mewn Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr ym maes Iechyd Meddwl

Chwefror 2026

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..................................................... 3

**Crynodeb Gweithredol** ..................................................... 5

**Adran 1: Ymgysylltu** ..................................................... 9

**Adran 2: Recriwtio** ..................................................... 34

**Atodiad 1: Llwybr Ymgysylltu** ..................................................... 44

**Atodiad 2: Dogfennau Ategol** ..................................................... 45

Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru
Wales Mental Health and Wellbeing Forum

Cefnogir y fenter hon gan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Practice Solutions

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i datblygu gan Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru (y Fforwm) i osod safonau ar gyfer arfer gorau o ran ymgysylltu a chydgynhyrchu. Mae'n adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Cryfach mewn Partneriaeth 1 a 2.

Mae'r ddogfen hefyd yn gosod y sail ar gyfer dull cyson ar draws Cymru.

Bydd y ddogfen hon a'i safonau yn cael eu hintegreiddio i bolisïau a strategaethau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd mae'n cael ei rhoi ar waith wrth ddyrannu cyllid.

Sefydlwyd y Fforwm drwy'r strategaeth 10 mlynedd, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' fel mecanwaith i gyflwyno llais defnyddwyr gwasanaethau oedolion a gofalwyr yng Nghymru yn lleol drwy'r Byrddau Partneriaeth Lleol, ac yn genedlaethol drwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol. Roedd aelodau'r fforwm yn wreiddiol yn dod o bob ardal bwrdd iechyd. Mae cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael eu dewis yn lleol i eistedd ar Fwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r holl gynrychiolwyr ar y byrddau hyn yn aelodau o'r Fforwm. Mae 10 aelod wedi'u penodi hefyd ledled Cymru i wella amrywiaeth aelodaeth y Fforwm, gan eu bod nhw'n cyflwyno diagnosau neu nodweddion lleiafrifol.

Rôl y fforwm o ran cyflawni'r canllawiau hyn fydd cynnal y ddogfennaeth ar ei wefan, wrth arwain ar nifer o argymhellion cenedlaethol (sydd wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar wahân) ac wrth ysgogi darpariaeth cyngor a chymorth i sefydliadau a phartneriaethau o ran y ffordd orau o ddatblygu eu trefniadau yn unol â'r safonau.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bawb sy'n gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i wneud penderfyniadau mewn perthynas â gofal iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys pob sefydliad, asiantaeth a phartneriaeth sydd naill ai'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol neu'n dylanwadu arnynt.

Er bod y ddogfen hon yn seiliedig ar brofiad o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, byddai llawer ohoni yr un mor berthnasol i wasanaethau plant, defnyddio sylweddau niweidiol, dementia, niwroamrywiaeth ac Anabledd Dysgu. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen ystyriaethau ychwanegol wrth weithio gyda phob un o'r grwpiau hyn.

Bydd sefydliadau a phartneriaethau yn meddu ar lefelau gwahanol o adnoddau, rhwystrau mewnol, polisïau a gweithdrefnau, ac felly cyfleoedd a heriau gwahanol wrth roi'r canllawiau hyn ar waith. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hysgrifennu i fod mor berthnasol â phosibl i bawb, ond efallai y bydd angen addasu i amgylchiadau sefydliadol, megis polisïau recriwtio ac Adnoddau Dynol yn y cyflogwyr mwy.

Yn dilyn ymgynghoriad, mae'r ddogfen ganllaw hon wedi'i diwygio i ganolbwyntio ar y safonau hynny a gafodd gefnogaeth sylweddol. Bydd canllawiau, trafodaethau ac adroddiadau arfer gorau yn cael eu cyhoeddi ar wahân ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil a thrafodaethau parhaus i ddatblygu'r gwaith hwn drwy'r amser.

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn cefnogi effeithiolrwydd cydgynhyrchu mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r angen am fwy o ymreolaeth a hawliau i ddefnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd meddwl yn creu rheidrwydd moesegol i hyrwyddo cydgynhyrchu. Felly nid dyma'r peth doeth i'w wneud yn unig, dyma hefyd y peth iawn i'w wneud.

Mae'r Canllawiau hyn yn cynnwys dogfennau ategol ychwanegol sydd ar gael ar Wefan Fforwm Iechyd Meddwl a Llesiant Cymru Gyfan. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gefnogi cyd-gynhyrchu, a chyfeirir atynt trwy gydol y Canllawiau. Mae rhestr wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

# Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen yn nodi'r uchelgais i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl a gofalwyr Cymru allu cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu ar amrywiaeth o lefelau fel sy'n briodol i'w dewis, ymrwymiad, profiad a gallu (gyda chymorth). Y nod yn y pen draw yw gweld yr holl Wasanaethau Iechyd Meddwl, strategaethau a pholisïau yn cael eu cydgynhyrchu.

Mae angen gwella cyrhaeddiad ac ansawdd cyfleoedd, amrywiaeth lleisiau, ac annibyniaeth llais defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Yn **Adran 1 – Ymgysylltu** mae'r canllawiau'n nodi egwyddorion cydgynhyrchu da mewn dogfen ategol, cyn mynd ymlaen i ddisgrifio'r rôl hanfodol bwysig o gefnogi ymgysylltiad a'r risgiau ynghlwm wrtho mewn perthynas ag annibyniaeth llais.

Mae'n ymdrin â llywodraethu sylfaenol gan gynnwys cyfnod swyddi, nifer y defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sydd wedi'u cynnwys mewn cyfarfodydd, hyfforddiant i ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff, cefnogi a datblygu cynrychiolwyr, gan gynnwys cefnogaeth cymheiriaid, datblygu fframwaith moesegol a dyheadau.

Ar ôl cydnabod y diffyg safonau ar hyn o bryd ledled Cymru, mae'r canllawiau hyn yn mynd ymlaen i drafod y canlynol:

- gweithredu,
- disgwyliadau gofynnol, a sut y byddai'r rhain yn gweithio,
  - gwerthuso,
  - diogelu annibyniaeth llais,
  - creu strategaeth ymgysylltu,
  - sicrhau adnodd pwrpasol i hwyluso ymgysylltu,
  - adrodd ar gynnydd,
  - a chyflawni ar yr amcan o 'ddim byd amdanom ni, hebom ni'.



**Mae Adran 2 - Recriwtio** yn nodi uchelgeisiau ar gyfer dod â mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i mewn i'r trafodaethau am wella gwasanaethau. Er y cydnabyddir bod y rhan fwyaf o bobl yn cymryd rhan yn dilyn profiadau gwael o gymorth iechyd meddwl, mae angen i ni hefyd fod yn denu'r rhai sydd wedi cael profiadau da fel y gallwn hefyd ddysgu o'r pethau cadarnhaol.

Mae'n nodi'r safon ofynnol ar gyfer sefydliadau a phartneriaethau sy'n darparu neu'n dylanwadu ar wasanaethau iechyd meddwl. Y safon ofynnol yw y bydd ganddynt adran strategaeth recriwtio yn eu strategaeth ymgysylltu gyffredinol i ddenu defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i roi eu llais, yn seiliedig ar arfer gorau mewn recriwtio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu'n rheolaidd.

**Mae Atodiad 1** yn dangos y llwybr ymgysylltu.

# Terminoleg

Mae **‘gweithredwr’** yn cael ei ddefnyddio i olygu defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr sy’n mynd ati i wneud penderfyniadau am wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer eu datblygiad a’u gwella. Nid yw’n cael ei ddefnyddio yn yr ystyr o weithredaeth wleidyddol, ac felly nid yw’n awgrymu dulliau gwrthwynebus.

Ma **‘ymgysylltu’** yn cael ei ddefnyddio fel term generig i ymdrin â phob math o ryngweithio cynhyrchiol rhwng defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a phawb arall sy’n ymwneud â gwneud penderfyniadau am wasanaethau i bobl â phroblemau iechyd meddwl a’u gofalwyr.

Byddwch yn gweld o’r llwybr ymgysylltu (atodiad 1) bod y term ymgysylltu hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r cam ar y llwybr ymgysylltu lle mae unigolion yn rhyngweithio â’r broses o wneud penderfyniadau untro neu yn y tymor byr iawn, fel unigolion yn hytrach nag fel cynrychiolwyr.

**‘Llwybr ymgysylltu’** Y gwahanol ffyrdd o gymryd rhan. Gweler y llwybr ymgysylltu yn Atodiad 1. Fel y gwelwch chi, y math mwyaf sylfaenol o ymgysylltu yw pan fydd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael gwybod am yr hyn sy’n digwydd, a’r math uchaf yw pan fydd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn arwain.

Mae **‘cydgynhyrchu’** yn cael ei ddefnyddio yn y canllawiau hyn i ddisgrifio lefel uwch o ymgysylltu sy’n cael ei nodweddu trwy weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, lle mae cydraddoldeb a pharch cydradd rhwng yr holl bartneriaid. Mae cyd-gyfrifoldeb am ganlyniadau cydgynhyrchu a rhennir pŵer a dylanwad yn gyfartal. Mae’n digwydd ar bob lefel o gydgynhyrchu cynllun gofal unigolyn ei hun i gydgynhyrchu unrhyw benderfyniadau eraill sy’n dylanwadu ar wasanaethau iechyd meddwl ar raddfa fwy.

Nid yw cydgynhyrchu yn cael ei ddefnyddio fel term generig ar gyfer pob math o ymgysylltu neu ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Er enghraifft, ni fyddai defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr sy’n dod i mewn i siarad â thîm yn fath o gyd-gynhyrchu oni bai bod y tîm yn gwneud darn o waith - fel Cynllun Gweithredu Adfer Tîm. Os mai pwrpas cyfranogiad y defnyddiwr gwasanaeth yn yr achos hwn yw arwain a dylanwadu ar newid, gallai hyn fod yn arweiniad defnyddwyr gwasanaeth trwy ymgynghori neu hyfforddiant. Os yw’r defnyddiwr gwasanaeth yn rhannu ei stori i ysgogi dysgu gan y tîm, byddai hyn yn cael ei alw yn ‘ymgysylltu’ neu’ ‘dylanwadu’ yn dibynnu ar ganlyniadau’r gweithgaredd. Efallai bod yr unigolyn yn cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eraill neu beidio, ac efallai ei fod wedi mynd trwy broses ddethol ar gyfer y darn hwn o waith neu beidio.

Mae ‘**y rhai sy’n gwneud penderfyniadau**’ yn cael ei ddefnyddio i olygu pawb sy’n cymryd rhan mewn penderfyniadau cydgynhyrchiol. Mae’n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, staff darparu gwasanaethau, rheolwyr, llunwyr polisi, rheoleiddwyr, arolygwyr, academyddion a gwleidyddion.

# Adran 1: Ymgysylltu

01







# 1.1 Cyflwyniad

## Y sefyllfa bresennol

Mae ymgysylltu eisoes yn digwydd ar wahanol lefelau ledled Cymru mewn ystod o wahanol wasanaethau iechyd meddwl.   Fodd bynnag, mae lefel yr ymgysylltiad yn aml yn gyfyngedig i lefelau is y llwybr ac mae ansawdd profiadau yn amrywiol iawn.

Mae yna lawer o enghreifftiau o arfer rhagorol, a hefyd enghreifftiau o ble mae gwella'n hanfodol.

## Yr uchelgais i Gymru

Y nod yw cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng Nghymru gymryd rhan ar ba bynnag lefel yn y Llwybr Ymgysylltu sy'n apelio atynt, sy'n briodol i'w doniau (gyda chefnogaeth os oes angen) a gwneud y profiadau o wneud hynny mor gadarnhaol ac adeiladol â phosibl.

Mae angen ehangu amrywiaeth y bobl sy'n cymryd rhan mewn ymgysylltu, er mwyn sicrhau bod lleiafrifoedd a grwpiau difreintiedig yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Mae angen i ddogfennau fod yn hygyrch i bawb.

Mae angen i lwybrau ar gyfer cynrychioli safbwyntiau unigol sy'n bwydo drwodd i fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol fod yn glir, yn atebol a meddu ar yr adnoddau priodol.

Mae angen diogelu annibyniaeth y defnyddiwr gwasanaeth a llais y gofalwr, ac mae angen lleihau'r risgiau i'r annibyniaeth hon.

Dylai'r holl wasanaethau, sefydliadau sydd â chyfrifoldebau am iechyd meddwl a grwpiau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau am iechyd meddwl fod yn dechrau o'r sefyllfa o sicrhau nad oes 'dim amdanom ni, hebom ni.' Dylent fod yn symud lefel yr ymgysylltiad ar hyd y llwybr tuag at gydgynhyrchu ac arweinyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth a/neu gofalwyr. Yn y pen draw, dylai cydgynhyrchu ddigwydd yn gyffredinol, wedi'i gefnogi gan weithgarwch ar bob lefel arall o ymgysylltu, fel safon ofynnol ar gyfer pob penderfyniad iechyd meddwl.

Bydd cyflawni'r uchelgais hwn yn gofyn am fecanwaith cadarn i ysgogi

# 1.2 Egwyddorion Cydgynhyrchu

Nid oes un diffiniad cyffredinol o gydgynhyrchu. O ganlyniad, mae gwahaniaethau mewn gweledigaeth ynghylch beth ddylai egwyddorion cydgynhyrchu fod.

O ganlyniad i ymgynghoriad, casglwyd llawer o syniadau am egwyddorion. Disgrifir y rhain yn y ddogfen ychwanegol 'Egwyddorion Cydgynhyrchu'.

**Safonau**

1.2.1 Wrth gychwyn ar broses gydgynhyrchiol, argymhellir bod grwpiau yn mabwysiadu egwyddorion ar gyfer ymgysylltu yn gyntaf.

1.2.2 Mae holl staff rheng flaen y gwasanaeth iechyd meddwl yn cael hyfforddiant mewn cydgynhyrchu gofal a thriniaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ac yn cael ei gyd-ddarparu ganddynt.



# 1.3 Newid diwylliant

Mae ymgysylltu a chydgynhyrchu rhagorol yn gofyn am sylfaen gwerth a diwylliant sy'n gynhwysol, yn egalitaraidd ac yn rhannu pŵer. Gwneud penderfyniadau ar y cyd yw'r ffordd mae pethau'n cael eu gwneud fel mater o drefn. Mae ymrwymiad i'r ffordd hon o weithio yn ymestyn o'r rheng flaen i'r prif reolwyr a phawb rhyngddynt. Mae'r broses yn barhaus, o osod blaenoriaethau i ddatblygu cysyniad, a hyd at adolygu ei gyflawniad, ei werthuso a'i fonitro. Mae'r sylfaen werth yr un mor berthnasol i benderfyniadau proffesiynol rheng flaen a phob lefel o wneud penderfyniadau y tu hwnt i hynny. Mae'r awydd am fewnbwn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ddilys ac mae'r gwahaniaeth mae hyn yn ei wneud yn amlwg. Nid yw'r diwylliant hwn yn cyd-fynd ag unrhyw fath o ymarfer cymhellol.

Mae dulliau amrywiol ar gael i gefnogi newid. Gweler y ddogfen atodol 'Newid Diwylliant i Ymgysylltu'.

**Safonau**

1.3.1 Mae disgrifiadau swydd a manylebau person yn cynnwys sgiliau a gwerthoedd cydgynhyrchu ac ymgysylltu.

1.3.2. Mae rolau arweinyddiaeth yn mynd i'r bobl sy'n dangos gwerthoedd pŵer a rennir ac ymrwymiad i gydgynhyrchu ac ymgysylltu.

1.3.3 Mae gan dimau hyrwyddwr sy'n codi proffil y gwerthoedd a'r ymddygiadau sy'n cefnogi ymgysylltu a chydgynhyrchu, ac sy'n hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi.

1.3.4 Mae gan dimau gynllun gyda nodau tymor byr ar gyfer bod yn fwy cydgynhyrchiol sy'n sicrhau newid diriaethol ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

## 1.4 Rôl benodol cefnogi ymgysylltu

Mae gan lawer o sefydliadau swyddi mewnol i gefnogi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr (neu PPI – Cyfranogiad Cleifion a'r Cyhoedd), gan gynnwys cyrff rheoleiddio proffesiynol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd, a sefydliadau'r trydydd sector. Yn ogystal, yng Nghymru, mae'r Byrddau Iechyd a/neu'r Comisiwn Gwasanaethau Cymdeithasol yn comisiynu swyddi defnyddwyr gwasanaeth a swyddi ymgysylltu â gofalwyr drwy sefydliadau'r trydydd sector. Mae rhai sefydliadau'n benodol yn ceisio cyflogi pobl sydd yn ddefnyddwyr gwasanaeth neu gynrychiolwyr gofalwyr neu sydd wedi bod yn ddefnyddwyr gwasanaeth neu gynrychiolwyr gofalwyr i'r swyddi hyn.

Ni fyddai gweithwyr ymgysylltu sy'n cael eu cyflogi yn fewnol yn disodli cefnogaeth annibynnol y sector ar gyfer ymgysylltu, sydd angen aros hyd braich oddi wrth y sefydliad comisiynu.

Byddai gweithwyr mewnol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r diwylliant mewnol ar gyfer cydgynhyrchu ac ymgysylltu, ac yn darparu cefnogaeth i staff rheng flaen ddangos ymagwedd gydgynhyrchiol rhagweithiol tuag at ofal, gwerthuso gwasanaethau, gwelliannau a datblygiadau gwasanaethau. Byddant yn gwneud hyn drwy drefnu hyfforddiant, cydlynu ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, rhoi adborth ar effaith ymgysylltu, a rhoi cyngor i staff. Gallent hefyd fod yn allweddol wrth recriwtio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr newydd i brosesau ymgysylltu a rolau cydgynhyrchu. Byddant yn fwyaf effeithiol os ydynt yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr ymgysylltu mewn sefydliadau sector annibynnol.

Manteision recriwtio defnyddiwr gwasanaeth i'r rôl hon yw:

- Gallant ddefnyddio eu profiadau eu hunain o ymgysylltu a chydgynhyrchu i lywio eu gwaith.
- Maen nhw'n 'siarad yr un iaith' â defnyddwyr gwasanaeth oherwydd profiad cyffredin.
- Gan eu bod wedi bod yn gynrychiolwyr eu hunain, byddant yn gwerthfawrogi'r angen am lais defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr dilys ac annibynnol, ac yn gallu cynnal 'niwtraliaeth broffesiynol' gan na allant fod yn llais annibynnol eu hunain fel gweithiwr.



Y risgiau o gael defnyddiwr gwasanaeth yn y rôl hon yw:

- Byddan nhw a'r sefydliad maen nhw'n gweithio iddo yn ystyried ei bod yn dderbyniol iddynt fynychu grwpiau gwneud penderfyniadau yn lle defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y gymuned
- Ni fydd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y gymuned yn ystyried bod gweithiwr yn gallu darparu barn defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr annibynnol neu gynrychioliadol
- Mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn debygol o brofi drwgdeimlad os byddant yn cael eu heithrio o grwpiau gwneud penderfyniadau oherwydd bod y gweithiwr ymgysylltu wedi eu disodli.
- Gallai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr deimlo efallai na fydd 'profiad defnyddwyr gwasanaeth' yr arweinydd ymgysylltu yn berthnasol i'r boblogaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr maen nhw'n gweithio gyda nhw.

**Safonau**

1.4.1 Mae o leiaf un rôl 'arweinydd ymgysylltu' yn cael ei datblygu ym mhob sector cyhoeddus a sefydliad dielw mawr i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ymgysylltu sefydliadau annibynnol lleol. Bydd eu dyletswyddau'n cynnwys cyfrifoldeb am arwain newid diwylliant, cefnogi datblygiad staff mewn technegau a phrosesau cydgynhyrchu, a gwella cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynghylch cyfleoedd ymgysylltu. Mae'r swydd hon i'w llenwi gan ymgeisydd sydd â phrofiad lefel uchel o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a phrofiad o ddal rôl cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth.

## 1.5 Staff sydd â phrofiad byw fel cynrychiolwyr

Mae gan lawer o staff mewn sefydliadau darparwyr eu profiad byw eu hunain o faterion iechyd meddwl ac o ofalu am anwyliaid. Mae'n hanfodol bwysig peidio â defnyddio'r llais hwn er mwyn eithrio lleisiau'r rhai sy'n ddi-waith ac nad oes ganddynt unrhyw gefndir hyfforddi o ran darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl. Mae profiad gwasanaethau yn wahanol iawn os ydych chi'n dod i mewn iddynt yn deall safbwynt staff a diwylliant y sefydliad. Gall hyn wneud y profiad yn fwy rhagweladwy, neu gall staff wynebu stigma a gwahaniaethu ychwanegol gan gydweithwyr pan fyddant yn datgelu eu problemau eu hunain. Mae'n hanfodol bod y rhai nad ydynt yn gallu dal swydd ac sy'n brwydro â budd-daliadau yn cael y cyfle i siarad drostyn nhw eu hunain.

Mae profiad staff yn fonws mewn cydgynhyrchu pan fyddant yn dal rôl staff lle gall eu profiad eu hunain wneud cyfraniad go iawn, ond, oherwydd gwybodaeth freintiedig sy'n effeithio ar y cydbwysedd pŵer, gwrthdaro teyrngarwch a gwrthdaro buddiannau, ni all fyth fod yn opsiwn amgen i annibyniaeth llais o'r tu allan i'r sefydliad, yn enwedig lle mae'r llais allanol wedi'i ddewis gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eraill i'w cynrychioli.

Yn y cyd-destun hwn mae rôl Gweithwyr Cymheiriaid mewn cydgynhyrchu (y tu hwnt i gydgynhyrchu gofal yr unigolion maen nhw'n gweithio gyda nhw, a'u dylanwad gyda'r timau maen nhw'n gweithio gyda nhw) yn ddadleuol. Os ydynt wedi cael eu dewis gan y sefydliad ac nid gan y bobl y byddent yn eu cynrychioli, efallai y byddant yn dân ar groen y bobl. Mae sgiliau craidd gweithwyr cymheiriaid yn wahanol i sgiliau gweithio cydgynhyrchiol ar lefel sefydliad a system, er y gall unigolyn feddu ar y ddwy set o sgiliau.

Mae llais staff sy'n cael eu cyflogi gan ddarparwyr gwasanaethau yn bwysig, a dylid wrando arno. Fodd bynnag, ychwanegiad yw'r llais hwn, nid yw yn lle llais annibynnol cyfranwyr allanol. Rydym ni angen i gydgynhyrchu fod yn bresennol mewn sefydliadau fel rhan annatod o ddiwylliant sefydliadol a rhwng sefydliadau a lleisiau allanol annibynnol. Nid yw'n fater o'r naill neu'r llall, ond yn fater o'r ddau.

Mae dadl gref dros glywed llais unigryw staff sydd â phrofiad byw ar lefel genedlaethol, gan gynrychioli staff sydd â phrofiad byw o bob rhan o Gymru.

# 1.6 Comisiynu sefydliadau'r sector annibynnol sy'n cefnogi Cynrychiolwyr

**Safonau**

1.6.1 Dylai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gymryd rhan yn y canlynol:

a) Datblygu manyleb y gwasanaeth
b) Cytundeb ar gyfer hysbyseb a lle i hysbysebu (byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw ofynion hysbysebu yn seiliedig ar gyfraith a pholisi caffael)
c) Meini prawf gwerthuso a llunio rhestr fer, (yn ychwanegol at unrhyw ofynion sefydliadol presennol)
d) Proses creu rhestr fer (lle mae hyblygrwydd o fewn gofynion cyfreithiol)
e) Proses cyfweld a phenodi e.e. cytuno ar gwestiynau, cyfweld/aelodaeth o'r panel tendr, trafod a chytuno ar feini prawf sgorio a phwysoli
f) Adolygu a gwerthuso contractau parhaus

# 1.7 Rolau sefydliadau sector annibynnol sy’n cefnogi Cynrychiolwyr

Bu llawer o ddadlau ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer swyddogion cymorth a gomisiynwyd yn y sector annibynnol, sy’n awgrymu bod angen rhywfaint o eglurhad o rôl a set sgiliau’r staff hyn.

Bydd disgwyl i sefydliadau’r sector annibynnol sy’n darparu cymorth i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ac eraill sy’n ymwneud â gweithgareddau ymgysylltu ddarparu’r cymorth a argymhellir sy’n cael ei ddisgrifio yn y ddogfen isod.

‘Cefnogaeth gan sefydliadau annibynnol i gynrychiolwyr, ac ar gyfer prosesau ymgysylltu cyffredinol, drwy’r swyddogion cymorth ymgysylltu a gyflogir’.

Gofynnir i sefydliadau annibynnol hefyd ddilyn y ‘Canllawiau ar Recriwtio Defnyddwyr Gwasanaeth a Chynrychiolwyr Gofalwyr’, sydd ar gael fel dogfen atodol.

Mae’r holl gamau gweithredu a awgrymir yn y dogfennau hyn eisoes yn cael eu darparu gan weithwyr yng Nghymru, gyda rhai sefydliadau yn darparu’r cyfan, neu’r mwyafrif ohonynt. Felly, rydym yn gyfforddus eu bod yn bosibilrwydd ymarferol.

Mae’r safonau isod wedi’u cynllunio i gefnogi mwy o gysondeb mewn perfformiad ledled Cymru.

**Safonau**

1.7.1 Mae angen cystadleuaeth iach ar gyfer SLAs (Cytundebau Lefel Gwasanaeth) i sicrhau nad yw sefydliadau'n dod yn hunanfodlon ynghylch cadw eu SLA, ac felly gadael i ansawdd y gwasanaeth lithro.

1.7.2 Er mwyn darparu mwy o dryloywder, dylai sefydliadau sector annibynnol ag SLAs ymgysylltu fod yn atebol yn gyhoeddus trwy'r angen i ddatgan canlyniadau gwariant trwy adrodd blynyddol.

1.7.3 Mae angen proses gydgynhyrchiol i sefydliadau cymorth gael eu dwyn i gyfrif gan y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr maen nhw'n eu cefnogi ynghyd â'r sefydliad comisiynu.



# 1.8 Materion Llywodraethu – diwallu prosesau a moesau

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn pwysleisio pwysigrwydd olrhain, adrodd a hyrwyddo effaith ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Roedd hefyd yn dangos yr angen am gadeirio cynhwysol, sensitif ac adeiladol. I gael rhagor o wybodaeth am ganllawiau cadeirio, gweler 'Canllawiau ar Gadeirio Cyfarfodydd Cydgynhyrchiol'.

**Safonau**

1.8.1 Mae pob papur cyfarfod yn disgrifio'r prosesau ymgysylltu a ddefnyddir wrth eu datblygu a sut mae canlyniadau'r broses honno wedi dylanwadu ar gynnwys y papur.

1.8.2 Mae gan bob agenda cyfarfod eitem sefydlog ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr er mwyn monitro cynnydd tuag at weithredu'r canllawiau hyn.

# 1.9 Cyfnod yn y swydd, a nifer y cynrychiolwyr

Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod pobl yn teimlo y dylai fod mwy o gyfleoedd i bobl wahanol gael eu clywed mewn cyfarfodydd bwrdd. Oherwydd bod cyfnodau byr yn y swydd yn arwain at gynrychiolaeth ddibrofiad sy'n perfformio'n wael, a bod tystiolaeth hefyd yn dangos mai anaml y gwerthfawrogir safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr pan fyddant yn llais unigol mewn grŵp, mae'n safonol cael cyfnodau hirach mewn swyddi a mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn yr ystafell. Mae hyn hefyd yn helpu i sicrhau amrywiaeth o brofiad yn y gynrychiolaeth a roddir. Rydym ni'n gwybod bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn aml yn cael problemau gydag amser i ffwrdd ar gyfer salwch neu gyfrifoldebau gofalu, felly y model sy'n ymddangos fel pe bai'n gweithio orau yw sicrhau bod grŵp neu 'dîm' o gynrychiolwyr ar gael a all rannu'r gwaith rhyngddynt i wneud y mwyaf o'r tebygolrwydd bod y 'cwota' aelodaeth bob amser ar gael ym mhob cyfarfod.

Am ragor o drafodaeth gweler y ddogfen 'Cyfnodau Swyddi a Nifer y Cynrychiolwyr'.

## Cyfnod yn y swydd:

Fel rheol gyffredinol, dylai cyfnodau swydd adlewyrchu cymhlethdod y gwaith ac amlder y cyfarfodydd. Mae cynrychiolwyr angen digon o amser i ddod i arfer â’r diwylliant, i ddysgu natur y gwaith, i ddatblygu perthnasoedd gwaith da ac effeithiolrwydd, ac i drosglwyddo eu dysgu i gynrychiolwyr newydd cyn iddynt adael.

I ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ac i sefydliadau, mae cyfraniad a chynrychiolaeth effeithiol yn allweddol i lwyddiant.

### Safon ofynnol

- Ar gyfer cyfarfodydd sy’n digwydd 3-6 gwaith y flwyddyn – lleiafswm cyfnod y swydd o 3 blynedd gydag o leiaf un tymor gwasanaeth posibl ychwanegol ar adolygiad llwyddiannus o berfformiad ar ddiwedd tymor 1.
- Ar gyfer cyfarfodydd bob mis neu 6 wythnos – lleiafswm cyfnod y swydd o ddwy flynedd gydag o leiaf un tymor gwasanaeth posibl ychwanegol ar adolygiad llwyddiannus o berfformiad ar ddiwedd tymor 1.
- Rhoddir cyfnod rhybudd o 6 mis neu o leiaf 2 gyfarfod (pa un bynnag sydd hwyaf) i gynrychiolydd os yw ei gyfnod yn y swydd i ddod i ben.
- Nid yw tîm o gynrychiolwyr byth yn cael ei ddisodli ar yr un pryd, i sicrhau trosglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd i gynrychiolwyr sy’n dod i mewn, ac i sicrhau bod cynrychiolwyr profiadol ac effeithiol bob amser ar y Bwrdd, y pwyllgor neu’r grŵp.

DS: Mae cynrychiolwyr wrth gwrs yn rhydd i ymddiswyddo ar unrhyw adeg.

### Safon euraidd

- Yr un cyfnod yn y swydd ag a wasanaethir gan aelodau eraill o’r pwyllgor neu’r grŵp.

## Nifer y cynrychiolwyr:

**Safon ofynnol**

- Mae o leiaf 2 ddefnyddiwr gwasanaeth a 2 ofalwr yn cael eu penodi fel cynrychiolwyr i bob Bwrdd Partneriaeth Lleol.
- Fel rheol, bydd gan bob Bwrdd neu bwyllgor hirdymor sy’n gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar wasanaethau, neu’n darparu llywodraethu, sicrwydd a chraffu, o leiaf 2 ddefnyddiwr gwasanaeth a dau gynrychiolydd gofalwyr.

**Safon euraidd**

- Lle mae gwahaniaethau daearyddol a gweinyddol mewn gwasanaeth rhwng gwahanol rannau o ardal dylanwad y sefydliad, mae’n well cael cynrychiolwyr o bob ardal ddaearyddol.
- Bydd digon o gynrychiolwyr yn cael eu penodi i sicrhau, o ystyried y gyfradd absenoldeb uchel oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu, y bydd o leiaf 2 ddefnyddiwr gwasanaeth a 2 ofalwr yn bresennol yn y Bwrdd bob amser.
- Bydd mwy na 2 ddefnyddiwr gwasanaeth a 2 ofalwr yn cael eu penodi i sicrhau amrywiaeth o leisiau ac i sicrhau bod profiad byw y cynrychiolwyr yn berthnasol i’r penderfyniadau sy’n cael eu gwneud.
- Arfer gorau yw bod digon o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gael llais cyfartal i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau proffesiynol lle mae pleidleisio mwyafrif yn cael ei ddefnyddio. Byddai hyn yn golygu aelodaeth o 50% o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr o leiaf.



**Safonau**

1.9.1 Mae sefydliadau’n bodloni’r safonau gofynnol ar gyfer cyfnodau yn y swydd a nifer y cynrychiolwyr mewn grwpiau gwneud penderfyniadau ac maen nhw’n anelu at y safon Euraidd.

1.9.2 Gellir mynd y tu hwnt i’r amodau gofynnol yn lleol, ond ni ellir ei leihau.

1.9.3 Er tryloywder a thegwch, bydd nifer y cynrychiolwyr a’u cyfnodau yn y swydd yn cael eu penderfynu drwy strategaeth ymgysylltu wedi’i chydgynhyrchu ar gyfer y sefydliad neu’r bartneriaeth.

1.9.4 Mae strategaeth ymadael deg ac urddasol, pan ddaw cyfnod cynrychiolydd yn y swydd i ben, a all gynnwys eu cadw i fentora, cefnogi a datblygu cynrychiolwyr sydd newydd eu penodi.

# 1.10 Hyfforddiant

Mae'n bwysig nad yw diffyg hyfforddiant yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu. Gellir ystyried hyfforddiant fel gwobr am ymrwymiad. Mae mynychu hyfforddiant yn dangos ymroddiad ac yn darparu tystiolaeth o gapasiti i symud ymlaen i rolau mwy cyfrifol.

Mae partneriaid eraill hefyd angen hyfforddiant ar sut i weithio mewn ffordd gydgynhyrchiol gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Byddai hyn yn cael ei gyd-ddylunio a'i gyd-gyflwyno orau gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

**Safonau**

1.10.1 Mae sefydliadau a phartneriaethau yn neilltuo cyllideb hyfforddi ar gyfer hyfforddiant cydgynhyrchu ar gyfer yr holl staff. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr gofalwyr.

1.10.2 Mae gan sefydliadau a phartneriaethau gyllideb ar gyfer hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau ar gyfer cynrychiolwyr. Mae cynrychiolwyr yn cael eu hysbysu o'r gyllideb sydd ar gael iddynt.

1.10.3 Byddai disgwyl i weithwyr ymgysylltu gefnogi cynrychiolwyr i drafod presenoldeb â disgownt mewn cynadleddau.

1.10.4 Mae hyfforddiant yn seiliedig ar angen, gan gynnwys sesiynau gloywi, ac nid yw'n orfodol i bawb, oherwydd efallai bod pobl yn meddu ar y cymwyseddau sydd eu hangen eisoes, a gallant ddysgu'n fwy effeithiol trwy wneud yn hytrach na thrwy gyrsiau.

## 1.11 Atebolrwydd Cynrychiolwyr

Mae hwn yn fater hanfodol i'w gael yn iawn gan ei fod yn cysylltu ag annibyniaeth llais. Mae'n bwysig nad yw pobl yn cael eu cosbi nac yn cael eu diswyddo oherwydd eu barn, oherwydd eu bod yn herio'r status quo, neu oherwydd eu bod yn cysylltu â staff yn uniongyrchol yn unol â'u rôl gynrychioliadol.

Mae llawer o gynrychiolwyr a'r rhai maen nhw'n eu cynrychioli yn teimlo'n gryf mai dim ond i'r bobl maen nhw'n eu cynrychioli ddylai cynrychiolwyr fod yn atebol iddyn nhw.

Cyn belled ag y bo modd, mae angen i unrhyw drefniant gael caniatâd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad nad oes consensws ar y pwnc hwn ar hyn o bryd. Mynegwyd pryder ynghylch sgil-effeithiau posibl unrhyw ganlyniadau negyddol o atebolrwydd ar bobl fregus.

## 1.12 Rheolwyr llinell Cynrychiolwyr

Mae hwn yn fater dadleuol gan mai cynrychiolwyr, fel gwleidyddion, sy'n gyfrifol yn y pen draw i'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr maen nhw'n eu cynrychioli.

Unwaith eto, nid oedd consensws ar y mater hwn yn yr ymgynghoriad. Mewn gwirionedd, mynegwyd rhai safbwyntiau cryf iawn. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth gyffredinol i ddatblygu cod moeseg gwirfoddol a fyddai'n berthnasol i bawb (yr holl randdeiliaid) a oedd yn ymwneud â phrosesau ymgysylltu a chydgynhyrchiol.

# 1.13 Cefnogi a datblygu Cynrychiolwyr

Mae cefnogaeth a datblygiad yn bwysig i bob defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr sydd â rôl barhaus mewn cydgynhyrchu ac arweinyddiaeth, megis gwaith ar fyrddau, pwyllgorau a gweithgorau, neu gyfrifoldebau hyfforddiant parhaus. Efallai y bydd angen hyfforddiant ar bobl sy'n gweithio ar gyfer dyletswyddau untro, fel cymryd rhan mewn paneli recriwtio, oni bai bod ganddynt brofiad recriwtio eisoes, ond nad ydynt yn cael datblygiad a chymorth parhaus.

**Cefnogaeth a Datblygiad**

Mae cynrychiolwyr wedi mynegi awydd i gael unigolyn penodol y gallant drafod ei rôl ag ef. Byddai cefnogaeth a datblygiad fel goruchwyliaeth glinigol sy'n creu lle diogel i drafod y gwaith, unrhyw anawsterau neu faterion lles, cael adborth ac edrych ar anghenion a chyfleoedd datblygu. Mae'n berthynas gadarnhaol yn ei hanfod sy'n helpu'r unigolyn i archwilio sut i ddelio ag unrhyw anawsterau yn ei waith, ac i ddathlu ei lwyddiannau.

Byddai cefnogaeth a datblygiad a ddarperir gan gynrychiolwyr profiadol iawn neu gynrychiolwyr sydd wedi ymddeol sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn cefnogaeth a datblygiad, neu sydd wedi cael profiad gwaith cyfatebol o gefnogi a datblygu eraill, yn darparu cyfleoedd i fyfyrio ar effeithiolrwydd, lles, rhannu syniadau, delio â rhwystrau, llwythi gwaith, a pherthynas â chynrychiolwyr a rhanddeiliaid eraill. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r rhai sy'n cynnig cefnogaeth a datblygiad yn meddu ar sgiliau eiriolaeth hefyd. Byddai cynrychiolydd lleol yn ddelfrydol fel mentor gan y byddant yn gyfarwydd â heriau ac amgylchiadau lleol sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Lle nad oes cynrychiolwyr addas mewn ardal, gellir recriwtio rhywun o'r tu allan i'r ardal ar gyfer y gwaith hwn, nes bod person lleol wedi'i hyfforddi ar gyfer y rôl hon.

Gallai'r broses gefnogi a datblygu gynnwys creu Cynlluniau Datblygu Personol ar gyfer cynrychiolwyr, lle mae adnoddau i ddarparu cyfleoedd datblygu. Gall hyn gynnwys edrych ar sut mae'r unigolyn yn teimlo ei fod wedi gwneud gwahaniaeth. Dylai hyn gael ei lywio gan adborth gan sefydliadau ynghylch yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i gyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

**Safonau**

1.13.1 Darperir cefnogaeth a datblygiad i bob cynrychiolydd gan gynrychiolwyr profiadol iawn neu wedi gynrychiolwyr sydd wedi ymddeol.

1.13.2 Mae cyllid yn cael ei fuddsoddi mewn hyfforddiant i gynrychiolwyr ddod yn bobl sy'n darparu cefnogaeth a datblygiad.

1.13.3 Mae pob person o'r fath sy'n darparu cefnogaeth a datblygiad yn dod yn aelodau o sefydliad sydd â pholisïau sy'n darparu fframwaith moesegol i sicrhau diogelwch ac amddiffyniad i Fentoriaid a'r rhai maen nhw'n eu mentora.

## 1.14 Strwythur cymorth cymheiriaid

Mae cefnogaeth a datblygiad grwpiau cymheiriaid hefyd yn fodel defnyddiol iawn, fel mecanwaith ar gyfer cefnogaeth a datblygiad personol.

**Safonau**

1.14.1 Bydd cynrychiolwyr yn cael cyfarfodydd lle maen nhw'n trafod eu perfformiad fel grŵp ac fel unigolion.

1.14.2 Mae cynrychiolwyr wedi'u hyfforddi (lle nad oes ganddynt y sgiliau angenrheidiol eisoes) i ddarparu cefnogaeth i'w cyd-gynrychiolwyr Cymheiriaid.

# 1.15 Gwerthuso prosesau ymgysylltu

Bydd gan ddefnyddwyr gwasanaethau lleol a gofalwyr, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau anstatudol, farn ac uchelgeisiau ynghylch ansawdd a chyrhaeddiad ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Dylai'r safbwyntiau a'r uchelgeisiau hyn arwain y meini prawf gwerthuso a'r broses werthuso.

Am feini prawf gwerthuso o bob cwr o'r byd gweler y ddogfen 'Gosod Nodau a Gwerthuso Gwasanaethau'.

**Safonau**

1.15.1 Mae gwerthuso prosesau ymgysylltu yn ymarfer cydgynhyrchiol gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n ymwneud yn lleol ar hyn o bryd.

1.15.2 Mae llawer o wahanol ffyrdd o roi adborth ar ymgysylltu ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

1.15.3 Mae gan werthuso ddigon o adnoddau, ond mae'n gymesur â'r manteision mae'n eu darparu ar gyfer dysgu a gwella.

1.14.4 Bydd adroddiad blynyddol sydd ar gael i'r cyhoedd ac sydd wedi'i gydgynhyrchu ar weithgarwch ymgysylltu a chyrhaeddiad, fel bod y broses yn dryloyw, ac mae'r sefydliad yn atebol i'r cyhoedd am ei berfformiad wrth gyflawni nodau ymgysylltu.

# 1.16 Annibyniaeth llais

Dyma'r mater mwyaf hanfodol i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, p'un ai mewn rôl gynrychioliadol ai peidio. Mae angen i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wybod y gall eu cynrychiolwyr herio'r status quo heb gael eu tynnu allan a'u disodli.

Mae trafodaeth bellach am y ffactorau a'r risgiau sy'n effeithio ar lais annibynnol, wedi'u cynnwys yn y ddogfen 'Llais Annibynnol'.

**Safonau**

1.16.1 Mae annibyniaeth llais yn cael ei adolygu'n rheolaidd a rheolir y risgiau a allai beryglu hynny.

1.16.2 Mae angen talu unigolion am waith cynrychioliadol drwy drefniant hyd braich neu'n uniongyrchol gan gyrff ariannu annibynnol.

1.16.3 Nid yw trefniadau comisiynu a monitro contractau yn cynnwys pobl o'r sefydliad comisiynu sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chynrychiolwyr.



# 1.17 Cwynion a phryderon am ymgysylltu

Roedd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn dangos bod pobl eisiau ffordd o wneud cwynion neu godi pryderon am brosesau ymgysylltu, ac i gwynion a phryderon o’r fath arwain at ddysgu a newid.

**Safonau**

1.17.1 Mae proses i ddatrys unrhyw bryderon neu gwynion am brosesau ymgysylltu.

1.17.2 Mae unrhyw bryderon neu gwynion am y broses ymgysylltu yn arwain at ddysgu a newid.

# 1.18 Rhoi'r canllawiau hyn ar waith

Y nod yw rhoi'r canllawiau hyn ar waith dros y 10 mlynedd nesaf.

Roedd yn amlwg o'r ymgynghoriad bod angen adnoddau, gan gynnwys cyllid, i wthio'r strategaeth hon ymlaen os nad yw am barhau i fod yn uchelgais nad yw'n cael ei chyflawni.

Mae angen integreiddio'r canllawiau yn yr holl gynlluniau datblygu, strategaethau a pholisïau fel ei fod yn ymddangos mewn cynlluniau cyflawni sy'n cynnwys digon o adnoddau, ac i sicrhau bod ganddo broffil digon uchel i sicrhau bod pawb sydd angen gwybod amdano yn ymwybodol ohono.

Cymerwyd dull safonol i gydnabod y ffaith bod gwahanol feysydd ar wahanol gamau datblygu, ac i sicrhau bod rhyddid o hyd i sefydliadau esblygu. Fodd bynnag, rhaid i sefydliadau a phartneriaethau gadw llygad ar ddatblygu arfer gorau a dysgu o gyflawniadau ac arferion rhagorol eu cymdogion.

Bydd gwaith i gyfleu'r arfer gorau diweddaraf i sefydliadau a phartneriaethau yn mynd rhagddo, ac mi fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Fforwm.

Rhagwelir y bydd rhywfaint o gyllid Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar sicrhau bod y safonau y cytunwyd arnynt ar waith.

Cydnabyddir y bydd rhai heriau a rhwystrau wrth roi'r safonau gofynnol ar waith, ond consensws y rhai a ymatebodd hyd yma oedd bod y safonau a gyflwynwyd yn dargedau rhesymol.

**Safonau**

1.18.1 Defnyddir dull gwella ansawdd mewn sefydliadau a phartneriaethau i ysgogi a gwella ymgysylltiad a diwylliant o gydgynhyrchu.

1.18.2 Argymhellir y canlynol –

Y disgwyliad safonol yw y bydd yr holl wasanaethau/sefydliadau yn:

a) gweithio tuag at gael sgwrs barhaus ac agored gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, fel eu bod yn ymwneud â gwneud penderfyniadau o'r cam cyn-gysyniad, trwy'r cam papur gwag, ac yna drwy gydol y broses i gynnwys monitro ac adolygu/gwerthuso'r canlyniadau.

b) sicrhau bod amrywiaeth o ffyrdd i ymgysylltu, sy'n hygyrch ac yn gynhwysol, er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl i bawb sydd am wneud hynny, fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

c) penodi o leiaf 2 ddefnyddiwr gwasanaeth a 2 ofalwr i bob Bwrdd neu bwyllgor tymor hir sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau, neu'n dylanwadu'n sylweddol ar lywodraethu, sicrwydd a chraffu dros wasanaethau.

d) o leiaf bob blwyddyn, cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i werthuso cyrhaeddiad ac ansawdd eu prosesau ymgysylltu presennol yn ogystal â'r canlyniadau a gyflawnwyd.

e) cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau annibyniaeth y defnyddiwr gwasanaeth a llais gofalwr rhag rheolaeth gan unrhyw bartneriaid, neu gan sefydliadau cymorth y trydydd sector.

f) datblygu strategaeth a chynllun gweithredu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Dylai hyn ddangos ymrwymiad y grŵp i ymgysylltu, a cheisio gwella annibyniaeth llais a chyrhaeddiad ac ansawdd y prosesau ymgysylltu. (Rhaid i'r rhain fod ag adnoddau digonol i sicrhau nad yw defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr byth allan o boced o ganlyniad i'w gwaith).

g) amlinellu rôl defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ym mhob Cylch Gorchwyl ar gyfer Byrddau, pwyllgorau a grwpiau.

h) neilltuo a chlustnodi adnoddau a chyllid i gefnogi ac ategu cyflwyno prosesau ymgysylltu.

i) bod gan gynrychiolwyr fynediad at gyfleusterau a’r adnoddau sydd maen nhw eu hangen i weithio’n effeithiol.

j) adroddiad ar ymgysylltu ar bob darn o waith, e.e. bydd papurau cyfarfod yn dangos tystiolaeth o ymgysylltu a bydd agendâu yn cynnwys eitem sefydlog ar ymgysylltu.

k) adrodd yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn amcanion strategol a gweithredol ar gyfer ymgysylltu.

l) gweithio tuag at yr egwyddor o ‘ddim byd amdanom ni hebom ni’, lle bydd gan defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr gofalwyr lais ym mhob maes gwneud penderfyniadau, sy’n berthnasol i iechyd meddwl yng Nghymru.

m) cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau, ymdrechu i ragori ar y safon ofynnol a pharhau i wella dros amser.

1.17.6 Cynnwys safonau gofynnol ar gyfer ymgysylltu fel rhan o adolygiadau cyrff sicrwydd (e.e., Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, a’r Uned Gyflenwi).

# 1.19 Casgliad

Mae’r prosesau a’r gweithgareddau ymgysylltu presennol ledled Cymru yn anghyson o ran ansawdd a chyrhaeddiad. Mae enghreifftiau o gydgynhyrchu da yn gymharol brin, er bod llawer o weithgareddau sy’n dangos lefelau ymgysylltu is.

Mae’n bryd creu disgwyliadau gofynnol i wasanaethau a sefydliadau wella ymgysylltiad, anelu at ddim byd amdanom ni hebom ni, ac i amddiffyn annibyniaeth llais y ddefnyddwyr gwasanaeth a’r gofalwyr sy’n cynrychioli pobl sydd â phrofiad byw o faterion iechyd meddwl a phrofiad byw eu teulu a’u ffrindiau ledled Cymru.



# Adran 2: Recriwtio

02







# 2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn amlinellu'r safon ofynnol a ddisgwylir gan bob sefydliad a phartneriaeth sy'n gwneud penderfyniadau am iechyd meddwl. Mae'n hyrwyddo arfer gorau wrth recriwtio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i rolau lle maen nhw'n rhoi llais i ddefnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr. Mae hyn yn berthnasol i'r holl sefydliadau a phartneriaethau yng Nghymru ym mhob sector sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl neu'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Yr uchelgais yw dod â mwy o bobl i mewn i'r sgwrs am wella gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r adran hon yn ymwneud yn fawr â denu talent ac ysbrydoli pobl i ymuno ac i gredu yn eu gallu i wneud gwahaniaeth.

Disgwylir i sefydliadau, o leiaf, feddu ar strategaeth recriwtio a chynllun gweithredu (fel rhan o'u strategaeth a'u cynllun ymgysylltu cyffredinol), gyda mecanweithiau ar gyfer cyflawni, adolygu a diweddaru. Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar arfer gorau.

Bydd rolau a chyfrifoldebau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ar wahanol lefelau ymgysylltu yn amrywio, ac yn enwedig gyda rolau mwy heriol, bydd angen trafod a chydgynhyrchu disgrifiadau swydd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sydd yn y rôl ar hyn o bryd.

Mae'r adran recriwtio hon yn seiliedig ar arfer gorau cyfredol; fodd bynnag, bydd yn bwysig i bob sefydliad gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau parhaus.

## 2.2 Codi proffil cyfleoedd i lais defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

Ni all pobl ddewis gwneud gweithgaredd os nad ydynt yn gwybod ei fod yn opsiwn.

Cynigiwyd llawer o syniadau, a'u crynhoi mewn adnodd ar gyfer syniadau ac arfer gorau 'Codi Proffil Cyfleoedd Ymgysylltu i Ddylanwadu ar Wella Gwasanaethau'.

**Safonau**

2.2.1 Rhaid i sefydliadau roi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo'r gwahaniaeth a wnaed gan gyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y gorffennol.

2.2.2 Mae Therapyddion Galwedigaethol a Chydlynwyr Gofal yn cynnig y dewis i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu fel rhan o'u cynllun gofal a thriniaeth.

2.2.3 Mae sefydliadau'n cynnwys eu staff wrth nodi pobl a allai fod eisiau ymuno â sgyrsiau am ansawdd gwasanaethau.

2.2.4 Mae sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo cyfleoedd.

# 2.3 Rhwystrau a phontydd i ymgysylltu

Mae llawer o heriau i'w goresgyn wrth sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu yn hygyrch i gynifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr â phosibl. Fe wnaethon ni gasglu llawer o syniadau am y rhwystrau hyn a sut i'w goresgyn ac enghreifftiau o arfer gorau. Mae'r syniadau hyn i gyd ar gael yn y ddogfen 'Rhwystrau a Phontydd i Ymgysylltu'. Bydd arfer gorau yn cael ei gyhoeddi a'i ddiweddaru maes o law.

**Safonau**

2.3.1 Mae lleihau'r rhwystrau i ymgysylltu yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen ac ar bob lefel o reolaeth, y byd academaidd, arolygu, rheoleiddio a llunio polisïau.

2.3.2 Newid diwylliant lle mae ymgysylltu yn dod yn rhan o waith pawb, er mwyn hwyluso sgwrs barhau gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr drwy'r amser.

2.3.4 Gall Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr rannu eu hadborth ar sawl ffurf fel mater o drefn (dienw, ar-lein, arolwg papur ac ati) a chael llwybr i roi eu henw ymlaen i weithio gyda gwasanaethau ar ddylunio a newid gwasanaethau, recriwtio staff ac ati.

2.3.5 Gall pawb ac unrhyw un ddarparu cefnogaeth ar gyfer ymgysylltu. Er enghraifft, gall pobl gefnogi ei gilydd.

## 2.4 Y rhai sy'n cael eu clywed yn llai aml

Mae rhai grwpiau'n cael eu clywed yn llai aml oherwydd eu bod yn gymunedau bach neu ymylol nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau prif ffrwd. Mae rhai yn cael eu clywed yn llai aml am fod siarad am iechyd meddwl yn dabŵ yn eu diwylliant.

**Safonau**

2.4.1 Gwneud cydgynhyrchu ac ymgysylltu yn rhan o ddogfennaeth a gweithdrefnau craidd i danio'r sgwrs a hyrwyddo awydd am newid ymhlith staff a defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

2.4.3 Mae swyddi'n cael eu creu i arwain ar estyn allan at leisiau pobl sy'n cael eu clywed yn llai aml.

## 2.5 Denu, ysbrydoli a datblygu pobl

Casglwyd llawer o syniadau ar y pwnc hwn. Am ragor o fanylion, gweler 'Denu Pobl, Eu Hysbrydoli a'u Datblygu'.

**Safonau**

2.5.1 Hyrwyddo manteision cymryd rhan.

2.5.2 Anogir arloesi wrth ymgysylltu gan weithio'n lleol ac yn genedlaethol.

# 2.6 Cenedlaethol

## Ymgysylltiad y tu allan i'r Fforwm

Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eraill yn perthyn i grwpiau a phwyllgorau lleol, arbenigol a chenedlaethol ond ar hyn o bryd nid oes ganddynt fynediad at gefnogaeth cymheiriaid, cefnogaeth ysgrifenyddiaeth, trafodaethau cynrychioliadol a llinellau dylanwad a fwynheir gan y Fforwm. Anaml iawn y caiff y bobl hyn eu penodi drwy brosesau recriwtio ffurfiol.



# 2.7 Amcanion cenedlaethol

### Uchelgais y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer ymgysylltu

Datblygu gallu'r boblogaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gyfrannu at weithgareddau ymgysylltu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a digwyddiadau ymgysylltu, yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac sy'n gwneud hynny.

Cynyddu amrywiaeth y bobl sy'n gallu cyfrannu at weithgareddau ymgysylltu, ac yn gwneud hynny.

Meddu ar broses glir ar gyfer cynrychioli barn o lefelau lleol i'r lefelau cenedlaethol, ac ar gyfer cyfathrebu ac atebolrwydd o'r lefel genedlaethol i lefelau lleol.

Meddu ar brosesau recriwtio o ansawdd cyson yn seiliedig ar safonau/canllawiau cenedlaethol. Mae hyn yn gofyn am fwy o gydgynhyrchu ac atebolrwydd o'r broses recriwtio i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr lleol.

Ei gwneud hi'n hawdd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ddod o hyd i gyfleoedd ymgysylltu.

Gwella mynediad i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i'r rhai sy'n eu cynrychioli, fel y gallant basio eu barn ymlaen.

**Safonau**

2.7.1 Datblygu neu adeiladu ar fecanweithiau lleol a chenedlaethol i sicrhau bod pawb sydd eisiau cymryd rhan yn gallu cymryd rhan ar ryw lefel.

2.7.2 Gweithio gyda, a bod yn gynhwysol o'r holl grwpiau a chynrychiolwyr pwyllgor presennol.

# 2.8 Strategaeth recriwtio sefydliadol

**Safonau**

Disgwylir i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl, a sefydliadau neu bartneriaethau sy'n gwneud penderfyniadau am iechyd meddwl, o leiaf, gael strategaeth a chynllun gweithredu i ddatblygu cyfeiriad teithio ar gyfer recriwtio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ar gyfer prosesau ymgysylltu yn eu sefydliad. Bydd hyn yn rhan o'u strategaeth ymgysylltu a'u cynllun gweithredu cyffredinol. Am arweiniad pellach ar ddatblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu, gweler 'Canllawiau ar Strategaethau Recriwtio'. Am arweiniad pellach ar recriwtio cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gweler 'Canllawiau ar Recriwtio Cynrychiolwyr'.

## 2.9 Cynllunio olyniaeth, cadw talent a strwythur gyrfa

Rhaid i strategaethau recriwtio gydnabod yr angen am gadw a gwobrwyo ymrwymiad, ymdrech, talent ac effeithiolrwydd. Ar hyn o bryd mewn sawl man mae unigolion talentog yn derbyn llwyth gwaith mawr am gwpl o flynyddoedd cyn cael eu disodli a diflannu'n ôl i ebargofiant. Yn aml, mae tîm cyfan o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael eu disodli gan bobl newydd heb unrhyw gyfnod trosglwyddo. Mae hyn yn gadael cynrychiolwyr newydd i suddo neu nofio, ac er eu bod yn dod yn fwy effeithiol, gadawyd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr heb gynrychiolaeth brofiadol.

Mae'n hanfodol bwysig bod yna barhad cynrychiolaeth gan unigolion effeithiol a phrofiadol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad unrhyw bobl newydd ddigwydd cyn i'r cynrychiolwyr presennol adael. Yn ogystal, lle mae polisi o ddisodli cynrychiolwyr effeithiol, mae angen ystyried lle mae'r bobl hyn yn mynd nesaf, a sut y gellir cadw a datblygu eu doniau o fewn y system. Os bydd sefydliadau'n cael enw am orddefnyddio ac yna cael gwared ar gynrychiolwyr yn gyflym, mae'n debygol o atal llawer o bobl dda rhag cymryd rhan.

Yr arfer gorau ar hyn o bryd yw cael grwpiau lleol ac arbenigol sy'n agored i bob defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr sydd â diddordeb. Swyddogaeth y grwpiau hyn yw casglu barn y boblogaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a rhoi profiad i bobl o fod mewn grŵp cydgynhyrchiol, datblygu galluoedd siarad cyhoeddus, y gallu i gynrychioli barn pobl eraill, a sgiliau eraill sy'n angenrheidiol i symud ymlaen i rolau mwy heriol.

Dylai profiad o fod mewn grŵp o'r fath fod yn faen prawf dymunol yn y fanyleb person ar gyfer cynrychiolwyr sy'n mynychu byrddau a phwyllgorau.

Er mwyn helpu'r bobl hynny sydd am symud ymlaen o gyfleoedd ymgysylltu tymor byr untro, megis llenwi ffurflenni adborth, neu fynychu grŵp ymgynghori neu ffocws, mae'n hanfodol bod gwybodaeth yn cael ei darparu bob amser ynghylch pwy i gysylltu â nhw i gymryd rhan ymhellach mewn grwpiau lleol neu arbenigol.

**Safonau**

2.9.1 Datblygu llwybr gyrfa i bobl sy’n ymwneud â gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys rolau â thâl ar y lefelau arweinyddiaeth uchaf.

2.9.2 Datblygu neu barhau i gefnogi grwpiau mynediad agored lleol lle gall safbwyntiau gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

2.9.3 Datblygu neu barhau i gefnogi grwpiau mynediad agored ar gyfer pobl sy’n cael eu clywed yn llai aml.

## 2.10 Casgliad

**Mae’r adran hon wedi nodi uchelgeisiau’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau ar gyfer gwella recriwtio a chefnogi defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy’n gynrychiolwyr yng Nghymru. Bydd llais effeithiol defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gwneud datblygu polisi mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy cydnaws ag anghenion a nodau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.**

# Appendix 1: Engagement Pathway

| DECHRAU | Dewiswch ble i ddechrau'ch taith | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 Gwybodus | **Natur y gweithgaredd** Derbyn gwybodaeth, diweddaru pobl am yr hyn sy'n digwydd | **Gweithgareddau neu rolau enghreifftiol** Mae pobl yn gallu cael mynediad at wybodaeth trwy danysgrifio i'r Cylchlythyr, mynd at y wefan | **Ymrwymiad amser** Heb ei nodi | |
| 2 Ymgyngoredig | **Natur y gweithgaredd** Cael adborth am waith sy'n cael ei wneud e.e. ysgrifennu polisïau, dogfennau canllaw | **Gweithgareddau neu rolau enghreifftiol** Mae pobl yn dewis bod yn bresennol neu ymateb neu gynnig sylwadau e.e. arolygon ar-lein, digwyddiadau ymgynghori | **Ymrwymiad amser** Heb ei nodi | |
| 3 Ymgysylltiedig | **Natur y gweithgaredd** Yn cyfrannu'n weithgar at bender-fyniadau er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion yn cael sylw | **Gweithgareddau neu rolau enghreifftiol** Yn cael gwahoddiad i weithdai/digwyddiadau/grwpiau ffocws untro | **Ymrwymiad amser** Trwy gydol y gweithgaredd/digwyddiad untro – disgwylir i hyn fod yn un diwrnod neu lai fel arfer | **A oes angen proses ymgeisio?** Nac oes |
| 4 Dylanwadu | **Natur y gweithgaredd** Yn cyfrannu'n weithgar at brosesau penderfynu, datblygu a dylanwadu e.e. polisïau, canllawiau | **Gweithgareddau neu rolau enghreifftiol** Gofynnir i bobl am gyngor a syniadau wrth geisio dod o hyd i ddatrysiadau, ac mae eu cyngor yn cael ei gynnwys mewn datblygiadau | **Ymrwymiad amser** Trwy gydol y gweithgaredd/digwyddiad untro – disgwylir i hyn fod yn un diwrnod neu lai fel arfer | **A oes angen proses ymgeisio?** Oes – llai manwl, fel arfer mae yna ffurflen fer i fynegi diddordeb |
| 5 Cydgynhyrchu | **Natur y gweithgaredd** Partneriaid cyfartal wrth ddatblygu a dylunio gwaith/gweithgareddau/prosiectau y gallu i ddylanwadu ar newid | **Gweithgareddau neu rolau enghreifftiol** Mae pobl a mudiadau yn cydweithio i ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau | **Ymrwymiad amser** Cyfarfodydd rheolaidd yn ôl yr angen | **A oes angen proses ymgeisio?** Oes – llai manwl, fel arfer maeyna ffurflen fer i fynegi diddordeb |
| 6 Arwain | **Natur y gweithgaredd** Y rheiny sydd â phrofiad bywyd sy'n cael mwyafrif y dylanwad wrth benderfynu, gan gymryd rôl arweiniol mewn pwyllgorau/gweithgorau ayb | **Gweithgareddau neu rolau enghreifftiol** Aelodaeth o'r grwpiau cyfeirio clinigol cenedlaethol, neu'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol unigol | **Ymrwymiad amser** Cyfarfodydd rheolaidd, presenoldeb yn ôl yr angen | **A oes angen proses ymgeisio?** Oes – cyflwyno ffurflen gais ac efallai y bydd gofyn cael geirda |



# Atodiad 2: Dogfennau Ategol

Dyma restr o'r Dogfennau Ychwanegol sy'n cefnogi'r canllawiau hyn:

**Adran 1 – Ymgysylltu**

1.2 Egwyddorion Cyd-gynhyrchu

1.3 Newid Diwylliant i Ymgysylltu

1.7 Cefnogaeth gan sefydliadau annibynnol i gynrychiolwyr, ac ar gyfer prosesau ymgysylltu cyffredinol, drwy'r swyddogion cymorth ymgysylltu a gyflogir

1.7 Canllawiau ar Recriwtio Defnyddwyr Gwasanaeth a Chynrychiolwyr Gofalwyr

1.8 Canllawiau ar Gadeirio Cyfarfodydd Cydgynhyrchiol

1.9 Cyfnodau Swyddi a Nifer y Cynrychiolwyr

1.15 Gosod Nodau a Gwerthuso Gwasanaethau

1.16 Llais Annibynnol

**Adran 2 – Recriwtio**

2.2 Codi Proffil Cyfleoedd Ymgysylltu i Ddylanwadu ar Wella Gwasanaethau

2.3 Rhwystrau a Phontydd i Ymgysylltu

2.5 Denu Pobl, Eu Hysbrydoli a'u Datblygu

2.8 Canllawiau ar Strategaeth Recriwtio

2.8 Canllawiau ar Recriwtio Defnyddwyr Gwasanaeth a Chynrychiolwyr Gofalwyr

Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru
Wales Mental Health and Wellbeing Forum

Ffôn/Tel: 01443 808060
Ebost/Email: mhforum@practicesoutions-ltd.co.uk
**www.mentalhealthforum.cymru**

dewch o hyd i ni ar facebook / find us on facebook:
**WalesMentalHealthForum**